‘Sefyll dros Geredigion mewn cyfnod anodd’

‘Standing up for Ceredigion in hard times’

Maniffesto **2017** Manifesto
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Plaid Cymru Ceredigion

Plaid Cymru | Party of Wales

Plaid Cymru Ceredigion
MANIFFESTO CYNGOR SIR 2017
COUNTY COUNCIL MANIFESTO 2017

Cynnwys / Contents

Neges gan Ellen ap Gwynn / A Message from Ellen ap Gwynn

Amlinelliad o waith Plaid Cymru ar Gyngor Sir Ceredigion hyd yn hyn /
An overview of Plaid Cymru's work on Ceredigion Council to date

1. **Datblygu Ceredigion / Developing Ceredigion**
   - Datblygu'r Economi / Economic Development
   - Band Llydan a Signal Ffôn / Broadband and Phone Signal

2. **Datblygu'r Isadeiledd / Developing Infrastructure**
   - Trafnidiaeth / Transport
   - Ffyrdd / Roads

3. **Sicrhau ein dyfodol / Securing our Future**
   - Addysg / Education
   - Tai / Housing

4. **Gofal i'r rhai sydd ei angen / Caring for those in need**
   - Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services
   - Ffoaduriaid / Refugees

5. **Arbed arian, gweithio'n effeithiol / Saving money, working effectively**
   - Corfforaethol / Corporate
   - Gwastraff / Waste
   - Rheoli Carbon / Carbon Management

Neges gan Arweinydd Cyngor Ceredigion, Ellen ap Gwynn.

'Sefyll dros Geredigion - mewn cyfnod anodd.'

Yn wyneb y toriadau llym i'n cyllid o ganlyniad, yn gyntaf, i'r Llywodraeth Lib Dem / Ceidwadol yn San Steffan, ac yna wedi'u trosglwyddo i ni gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd, mae Plaid Cymru, ynghyd â'n partneriaid yn y Glymblaid, wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn dros Geredigion.

Rydym wedi gorfod dod o hyd i ffyrdd o leihau ein cyllideb o £34 miliwn - 25% o'r gyllideb refeniw - ac rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid yn y Cynghorau Tref a Chymuned ac yn ein cymunedau am eu cydweithrediad ac am gytuno i gymryd at rai gwasanaethau lleol er mwyn eu cadw at y dyfodol.

Rydym, bob amser, yn glynu at y syniad bod cymuned gref yn un sydd yn deg.

Mae ein penderfyniadau wedi canolbwyntio ar ail-lunio y gwasanaethau dydd i ddydd na allwn fyw hebddynt, ac wrth wneud y penderfyniadau hyn rydym, cyn belled ag y gallwn, wedi rhoi blaenoriaeth i ansawdd bywyd trigolion Ceredigion.

Rydym wedi ceisio am y safonau uchaf ar gyfer addysg ein plant, cadw strydoedd yn lân a mannau hamdden yn ddiogel, cynnig tai fforddiadwy ar gyfer ein teuluoedd, a gofal gydag urddas ar gyfer ein cleifion a'r oedrannus.

Yn hyn, rydym wedi rhagori.

Wrth symud ymlaen, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn wynebu heriau newydd, gan gynnwys y posibilrwydd o weithio mewn strwythur rhanbarthol newydd a fydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Ond wrth gwrdd â'r heriau hyn, bydd eich Cynghorwyr Plaid Cymru wastad yn cadw'n driw i'n hegwyddorion craidd sef tegwch, cydweithrediad a brwdfrydedd dros ein cymunedau.

Fe fyddwn yn llais cryf dros ddyfodol teg i Geredigion.

Byddwn yn gweithio drosoch chi, a dros bawb yng Ngheredigion.

Gobeithiwn, yn yr etholiad hwn, y byddwch yn rhoi cyfle i ni barhau â'r gwaith o gyflawni dros Ceredigion.

Ellen ap Gwynn
Ymgeisydd Cyngor Ceulanamaesmawr
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion ers 2012

A message from the leader of Ceredigion County Council,

'Standing for Ceredigion – in hard times.'

In the face of severe funding cuts imposed by the Lib Dem/Conservative Government at Westminster, and passed on to us by the Welsh Government in Cardiff, Plaid Cymru, together with our Coalition partners, as the leaders of the council have had to make some tough decisions in Ceredigion.

We have had to find ways to reduce our budgets by £34million - 25% of the revenue budget - and we are grateful to our partners on the Town and Community Councils and in our communities for their co-operation and for agreeing to take over some local services in order to keep them for the future.

But we have always maintained that a strong community, is a fair community.

Our decisions have centered on redesigning everyday services that we cannot live without, but in making these decisions, we have always, as far as is possible, prioritized the quality of life of the citizens of Ceredigion.

We have aimed for the highest standard of education for our children, clean streets and safe recreational spaces, affordable houses for our families, and dignified care for our sick and elderly.

In this, we have excelled.

Moving forward, Ceredigion County Council will face even more new challenges, including the possibility of working within a new regional structure imposed by the Welsh Government. But in meeting these challenges, your Plaid Cymru Councilors will always stick by our core principles of fairness, co-operation and passion for our communities.

We will fight for a fair future for Ceredigion.

We will work for you, and for everyone in Ceredigion.

We hope that in this election, you will task us to continue with the work of succeeding for Ceredigion.

Ellen ap Gwynn
Council Candidate for Ceulanamaesmawr
Leader of Ceredigion County Council since 2012

Amlinelliad o waith Plaid Cymru ar Gyngor Sir Ceredigion hyd yn hyn

Yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2012, daeth Plaid Cymru yn blaid fwyaf ar Gyngor Ceredigion gydag 19 o'r 42 o sedd. Ffurfiwyd clymblaid bryd hynny gyda'r Annibynwyr, Llais Annibynnol a Llafur o dan arweiniad Ellen ap Gwynn.

Ym Mis Hydref 2013, cychwynnwyd toriadau cyllid dinistriol gan y llywodraeth Lib Dem / Ceidwadol yn San Steffan. Ers hynny, mae Ceredigion wedi dioddef toriadau o £ 34 miliwn - 26% o gyllideb refeniw'r Cyngor. Er gwaethaf hyn, mae'r weinyddiaeth dan arweiniad Plaid Cymru wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau rhagorol.

Yr Awdurdod Addysg Lleol gorau yng Nghymru, wedi ei nodi'n 'Rhagorol' gan ESTYN - 2013
Y cyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru - 2015/16 a 2016/17.
Y trydydd gorau yng Nghymru am ddarparu Tai Fforddiadwy - 2015/16
Y strydoedd glanaf yng Nghymru yn ôl adroddiad Cadw Cymru'n Daclus - 2015/16
Y 6ed Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru ar draws pob gwasanaeth - 2015/16
Arbed bron i 3,000 tunnell o garbon a £2.2m ar ddiwedd 2016/17 trwy ein Rhaglen Rheoli Carbon

Wrth edrych i'r dyfodol:

Dan y ddeddfwriaeth newydd sydd dan drafodaeth, byddwn yn gorfod gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol o fewn a thu allan i'r sir er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio i wella gwasanaethau er lles cenedlaethau'r dyfodol yng Ngheredigion.

****

An overview of Plaid Cymru's work on Ceredigion Council to date

Following the 2012 local elections Plaid Cymru became the largest party on Ceredigion Council with 19 out of 42 seats. A coalition with the Independents, Independent Voice and Labour was formed under the leadership of Ellen ap Gwynn.

Devastating funding cuts were instigated in October 2013 by the then Conservative/Lib Dem Government at Westminster. Ceredigion has since suffered cuts of £34 million - 26% of the Council's revenue budget. Despite this, the Plaid Cymru led administration has still managed to deliver excellent services.

Best Local Education Authority in Wales with a rating of Excellent from ESTYN 2013
Best Recycling rates in Wales for 2015/16 and 2016/17
Third best in Wales for providing Affordable Housing 2015/16
Cleanest streets in Wales 2015/16 - Keep Wales Tidy Report
6th best Local Authority in Wales for overall services - 2015/16
Saved nearly 3K tons of carbon and £2.2m by the end of 2016/17 through our Carbon Management programme

Looking to the future:

Under the proposed new legislation, we may have to work with our regional partners within and outside the county in order to ensure that we plan to improve services for Ceredigion's future generations and our wellbeing.

Datblygu Ceredigion

DATBLYGU ECONOMAIDD

Mae Ceredigion wedi arwain y ffordd wrth sefydlu Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru, partneriaeth rhwng Ceredigion a Phowys sy'n amlygu anghenion economaidd y rhanbarth. Canfyddwyd y gallai Brexit olygu ergyd o £55 miliwn i economi Ceredigion, ac felly byddwn yn dilyn pob llwybr er mwyn hybu twf economaidd.

Fe wnaethom gefnogi adfywio Castell Aberteifi sydd wedi rhoi hwb enfawr i'r economi leol yn ne'r Sir. Mae datblygiad Dan Dref yn Aberystwyth, sydd newydd ei gwblhau, wedi creu 550 o lefydd parcio, 300 o swyddi yn y dref ac yn debygol o ychwanegu £3.5 miliwn i'r economi leol.

Fe wnaethom ail adeiladu y Bandstand yn Aberystwyth, sydd bellach yn lle delfrydol ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus, ac mae'r datblygiad rydym yn ei arwain yn Amgueddfa Ceredigion, a ariennir gan HLF, yn mynd i sicrhau gwell mynediad i gasgliadau gwych yr Amgueddfa a darparu adnoddau gwell i'r ganolfan gwybodaeth ymwelwyr.

Byddwn yn:

- Cefnogi datblygiad pellach Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru.
- Gweithio'n gyson i geisio cael cefnogaeth i'n cymuned amaethyddol yn dilyn Brexit.
- Gweithio gyda'n dwy brifysgol ar gyfleoedd i dyfu ein heconomi.
- Parhau i gefnogi busnesau lleol gyda'n Fframwaith Busnes Lleol ac i hyrwyddo cyfleoedd i brentisiaid lle bynnag mae hynny'n bosib.
- Buddsoddi arian a gafwyd o ddatblygiad Dan Dref i wella ein hadnoddau hamdden ac ystyried ymhellach a ellir darparu Cylch Beicio Ffordd Caëedig.
- Gweithio i ddenu mwy o ddigwyddiadau teledu, ffilm a chwaraeon i'r ardal er mwyn denu mwy o dwristiaid, a byddwn yn hybu atyniadau a chyfleusterau lleol er mwyn datblygu y diwydiant twristiaid.
- Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

BAND LLYDAN A SIGNAL FFÔN

Mae band llydan cyflym wedi cyrraedd Ceredigion, neu felly y dywed yr arwyddion ar flychau ar hyd y sir, ond mae cyflwyno band llydan wedi bod yn broses araf a phoenus i lawer o bobl y sir yn ogystal â busnesau lleol. Araf hefyd yw datblygiad signal ffôn yn ein cymunedau gwledig gyda llawer ohonom yn rhwystredig gyda diffyg signal ffôn yn ein cartrefi ac yn ein cymunedau.

Rydym wedi lobïo Llywodraeth Cymru droeon er mwyn i'r gwaith fynd rhagddo yn chwim ar gysylltedd Ceredigion gan gwrdd â Gweinidogion y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi symud cynifer â phosib o rwystrau er mwyn i'r gwaith fynd rhagddo.

Byddwn yn:

- Lobïo i uwchraddio ein trosglwyddyddion ar draws y sir er mwyn derbyn gwasanaeth 4G a 5G llawn
- Lobïo DCMS ac Ofcom am fynediad crwydrol ar draws rhwydweithiau ffôn symudol er mwyn sicrhau cyfathrebu gwell ar draws y sir/y wlad
- Sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio a mynd ar drywydd materion yn ymwneud â gosod band llydan yng Ngheredigion ac i weld sut gall y Cyngor barhau i gynorthwyo ei ddatblygiad.
- Blaenoriaethu darparu rhwydwaith 'backhaul' i 'fannau tywyll' fel y gall darparwyr ffonau symudol ei ddefnyddio wedyn. (Mae rhwydwaith 'backhaul' yn cynnwys cysylltiadau 'hanner-ffordd' rhwng y rhwydwaith crai a'r isrwydweithiau llai sy'n nes at y defnyddwyr.)
- Lle mae'n addas, cefnogi prosiectau cloddio ar y cyd rhwng Openreach a thirfeddianwyr, lle y gall tirfeddianwyr, os ydynt yn dymuno, wneud peth o'r gwaith eu hunain.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses fabwysiadu er mwyn sicrhau bod y defnyddwyr yn deall beth sydd angen ei wneud i gael eu cysylltu.

Developing Ceredigion

ECONOMIC DEVELOPMENT

Ceredigion has led the setting up of the Growing Mid Wales Partnership, a partnership between Ceredigion and Powys that highlights the economic needs of the region. Post-Brexit it has been identified that there could be a £57 million hole in the Ceredigion economy and we will follow all avenues in order to promote economic growth.

We supported the regeneration of Cardigan Castle which has provided a major boost to the local economy in the south of the County. The recently completed development on Mill Street in Aberystwyth has created 550 parking places, 300 jobs in the town and is expected to add £3.5 million to the local economy.

We rebuilt the Bandstand in Aberystwyth, which is now an inspiring space for public performances and events and the HLF funded improvement to the Ceredigion Museum, on which we led, will also ensure better access to our fantastic collections and provide better facilities for the tourist information centre.

We will:

- Support the development of the Growing Mid Wales economic development partnership.
- Work to advocate support for our Agricultural community post Brexit.
- Work with our two universities on opportunities for growing our economy.
- Continue to support local businesses through our acclaimed Local Business Framework and promote apprenticeship opportunities wherever possible.
- Invest the windfall from the Mill Street development in improving our leisure facilities and will further explore providing a Closed Road Cycle Circuit.
- Work to attract more TV, film and sporting events to the area to attract more visitors and will promote local attractions and amenities to develop the tourism industry.
- Revise the Local Development Plan.

BROADBAND AND PHONE SIGNAL

Superfast Broadband has arrived in Ceredigion, or so the signs say on boxes around the county, but the roll out has been slow and painful for many residents as well as local businesses. The development of phone signal in our rural communities has also been slow, with many of us frustrated at the lack of phone signal in our homes and in our localities.

We have lobbied the Welsh Government many times in order to get swift progress on the connectivity of Ceredigion, and have met with Government Ministers. We have also removed as many obstacles as we can in order to help with the progress.

We will:

- Lobby for an upgrade of our transmitters across the county, in order to achieve full 4G and 5G coverage
- Lobby DCMS and Ofcom for roaming access across all mobile phone networks to ensure better cross county/country communication.
- Set up a Task and Finish group to investigate and pursue issues around the installation of broadband in Ceredigion and to see how the Council can continue to aid roll out.
- Prioritise the provision of a backhaul network to 'not spots' which mobile providers can then use. (The 'backhaul' network comprises the intermediate links between the core network and the smaller subnetworks towards the users' end of the hierarchy).
- Where appropriate, support self-dig collaborations with Openreach whereby landowners, if they so wish, can do some of the necessary work themselves.
- Publicise the adoption process to ensure all residents understand what they need to do to get connected.

Datblygu'r Seilwaith

TRAFNIDIAETH

Credwn fod trafnidiaeth gyhoeddus yn holl bwysig i Geredigion o ran datblygu'r economi, mynediad i waith, siopau a gwasanaethau hanfodol, ac er mwyn lleihau ein hôl troed carbon.

CERDDWYR A BEICWYR

Byddwn yn:

- Ymestyn darpariaeth llwybrau troed a beic o gwmpas y sir, i gyd-fynd gyda ffyrdd seiclo yn ein trefydd
- Yn parhau i flaenoriaethu diogelwch i gerddwyr o fewn ein trefi trwy adeiladu rhagor o fannau croesi i gerddwyr a llochesi

BYSIAU A THRENAU

Byddwn yn :

- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau parhad i'r gwasanaethau bysiau cenedlaethol sy'n cysylltu Ceredigion gyda gweddill Cymru.
- Parhau i gefnogi gwasanaethau bysiau lleol ar adeg pan fod cyllid i wasanaethau ar draws Cymru yn cael ei dorri.
- Parhau i roi cymorth ariannol i rwydwaith Bwcabus fel y dull mwyaf hyblyg a chost effeithiol o ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, a pharhau i hyrwyddo yr 17 o gynlluniau Trafnidiaeth Gymunedol yn y sir.
- Parhau i bwyso am wasanaeth llawn pob awr ar reilffordd y Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, a hynny ar ôl i ni lwyddo i sicrhau gwasanaeth pob awr yn ystod y cyfnodau prysuraf, sydd wedi cynyddu nifer o teithwyr gan 41%.
- Lobïo i gael canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb i ail-agor rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin eu hystyried gan Gomisiwn Isadeiledd Cenedlaethol Cymru.
- Parhau i lobïo am orsaf newydd a chyfnewidfa deithio yn Bow Street. Mae cais am arian gwerth £6.5 miliwn wedi ei gyflwyno am gyfnewidfa bws a rheilffordd gyda maes parcio i gerbydau a beiciau. Disgwylir penderfyniad yn y gwanwyn.

FFYRDD

Rydym yn credu bod Ceredigion yn rhan bwysig o isadeiledd trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn achub ar bob cyfle i gael arian i wella ffyrdd y Sir. Byddwn yn blaenoriaethu datblygiadau i'n ffyrdd strategol:

- Llambed – Ponterwyd
- Tregaron – Aberystwyth
- Aberteifi – Castell Newydd Emlyn

Byddwn hefyd yn:

- Chwilio am gyfleoedd, gyda chefnogaeth tirfeddianwyr, i ddarparu llecynnau pasio ar hyd ffyrdd gwledig culion.
- Cyflwyno defnydd ehangach o dechnoleg 'smart' er mwyn mapio'n gywirach ac yn fwy effeithlon y ffyrdd y dylid eu graeanu yn y gaeaf.
- Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i wella diogelwch ar fyrder mewn nifer o fannau ar hyd yr A487T a'r A44T trwy Geredigion.
- Cyd-weithio gydag Asiantaeth y Priffyrdd i ddatblygu llwybrau amgen pan fo priffyrdd ar gau o ganlyniad i ddamweiniau mawr.
- Parhau i ymgyrchu i droi yr A44T trwy canol tref Aberystwyth yn ffordd sirol ac am ffordd osgoi o gwmpas Llanbadarn Fawr.

Developing Infrastructure

TRANSPORT

We believe that public transport is vitally important to Ceredigion in terms of developing the economy, access to work, shops and essential services, and in lowering our carbon footprint.

PEDESTRIANS & CYCLISTS

We will:

- Continue to extend the provision of footpath and cycle paths around the county together with infrastructure like cycle tracks in our towns
- Continue to prioritise pedestrian safety within our towns by building further pedestrian crossing points and refuges.

BUSES AND RAIL

We will:

- Work closely with the Welsh Government to ensure continuation of national bus services that connect Ceredigion with the rest of wales.
- Continue to support local bus services at a time when funding for services across Wales is being cut by the Welsh Government.
- Continue to give financial support for the Bwcabus network as the most flexible and cost-effective way to provide public transport in rural areas and continue to champion and promote the 17 Community Transport schemes in the county.
- Continue to press for a full hourly service on the Cambrian rail line from Aberystwyth to Shrewsbury, having already achieved a peak-hourly service resulting in a 41% increase in passengers on the line.
- Lobby for the results of the feasibility study on an Aberystwyth - Carmarthen railway line to be considered by the National Infrastructure Commission for Wales.
- Continue to lobby for a new station and transport interchange at Bow Street. A £6.5 million funding application has been submitted for a fully accessible strategic bus and rail interchange with car and cycle parking. A decision is expected in the spring.

ROADS

We believe that Ceredigion is geographically crucial to the overall transport infrastructure in Wales.

We will take every opportunity to draw down funding to improve the County roads. We will prioritise improvements to our strategic county roads:

- Lampeter - Ponterwyd
- Tregaron - Aberystwyth
- Cardigan - Newcastle Emlyn

We will also:

- Pursue opportunities, with the support of landowners, to provide passing places on our narrow country lanes.
- Introduce greater use of smart technology to more accurately and efficiently map winter gritting routes.
- Continue to lobby the Welsh Government to urgently improve safety at various points along the A487T and A44T through Ceredigion.
- Work with the Trunk Road agency to develop alternative routes when Trunk Roads are closed as a consequence of major road traffic accidents.
- Continue to campaign for the de-trunking of Aberystwyth town centre and a relief road around Llanbadarn Fawr.

Sicrhau ein dyfodol

ADDYSG

Ar ôl derbyn gradd 'Rhagorol' gan Estyn, corff arolygu addysg Llywodraeth Cymru, rydym wedi cael ein cydnabod fel yr awdurdod addysg gorau yng Nghymru o ran ymarferiad sy'n arwain y sector.

Cwblheir ein gwaith i sicrhau ysgol ardal newydd i Drefach pan agorir Ysgol Dyffryn Cledlyn ym mis Medi 2017.

Byddwn yn:

- Parhau i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg drwy'r sir gyda'n Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Gymraeg.
- Parhau i gynnal y safonau dysgu uchaf yng Nghymru.
- Parhau i ddatblygu yr adran gynradd newydd ac uwchraddio Ysgol Henry Richard, yr ysgol 3-16 yn Nhregaron, i gwrdd â safonau Ysgolion yr 21 Ganrif.
- Ymestyn ysgolion Llanilar a Chommins Coch
- Ymgynghori ar ofynion datblygu pellach pan fydd arian pellach ar gyfer Ysgolion yr 21 Ganrif yn dod ar gael yn 2019 gan gynnwys Ysgol Uwchradd Aberteifi

TAI

O dan ein harweiniad, Ceredigion yw'r trydydd awdurdod gorau yng Nghymru o ran cwblhau tai fforddiadwy.

Byddwn yn

- Adolygu y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn dod o hyd i gydbwysedd tecach o ran datblygiad rhwng ardaloedd trefol a gwledig ac i gwrdd yn well â dyheadau pobl leol.
- Parhau i weithio gyda chymdeithasau tai i sicrhau grantiau tai cymdeithasol er mwyn cynyddu y ddarpariaeth o dai cymdeithasol.
- Parhau i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gefnogi y rhai a all eu cael eu hunain yn ddigartref yn sgîl newidiadau yn y system budd-daliadau.

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Iaith Gymraeg yn hollbwysig i Geredigion ac i waith pob dydd y Cyngor.

Byddwn yn:

- Hyrwyddo Safonau Statudol y Gymraeg.
- Cefnogi gwaith Cered, i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ac mewn busnes.
- Parhau i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg drwy'r sir gyda'n Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Gymraeg.

Securing our Future

EDUCATION

Having achieved an 'Excellent' rating from Estyn, the government inspectorate of education in Wales, we have been acknowledged as the top education authority in Wales for sector-leading practice.

Our work to secure a new area school for Drefach will be completed when Ysgol Dyffryn Cledlyn opens in September 2017.

We will:

- Continue to strengthen Welsh Language provision throughout the county with our Strategic Plan for Welsh Language Education.
- Continue to provide the highest standards of teaching and learning in Wales.
- Continue the development of the new primary section and upgrading of Ysgol Henry Richard, the 3-19 school in Tregaron, to 21st Century School standards
- Provide extensions for Ysgol Llanilar and Ysgol Commins Coch
- Consult on further development needs when further funding for 21st Century Schools becomes available in 2019, including in Cardigan Secondary School

HOUSING

Under our leadership, Ceredigion is third best authority in Wales for the completion of affordable homes.

We will:

- Review the Local Development Plan in order to find a more equal balance of development between rural and urban areas and better meet the aspirations of local people.
- Continue to work with housing associations to draw down social housing grants in order to increase provision of social housing.
- Continue to ensure that we do our best to support those threatened with homelessness because of changes to the benefits system.

THE WELSH LANGUAGE

The Welsh Language is vital to Ceredigion, and to the work of the Council.

We will

- Promote the Statutory Standards of Welsh.
- Support the work of Cered, to promote the use of the Welsh Language in our communities and in business.
- Develop Welsh medium education through the Strategic Plan for Welsh Language Education.

Gofal i'r rhai sydd ei angen

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mewn cyfnod o gyni ariannol, mae sicrhau gofal parhaol i'r rhai sydd ei angen yn holl bwysig, ac mae wedi bod yn ganolbwynt i'n gwaith. Credwn y dylem gynorthwyo pobl i gadw eu hannibyniaeth, ond y dylai ein gwasanaethau cymdeithasol fod yn barod bob amser i ymateb i angen.

Ymhyfrydwn yn y ffaith mai Ceredigion yw'r unig sir yng Nghymru sy'n parhau i ddarparu prydau i'r henoed a'r anabl gan ddefnyddio cynnyrch ffres, lleol yn hytrach na phrydau microdon.

Rydym wedi dangos brwdfrydedd wrth fynd ati i drawsffurfio gwasanaethau i'r henoed a'r anabl yn ein sir, ac rydym yn edrych ymlaen i barhau gyda'r cyfrifoldeb hwn.

Byddwn yn :

- Datblygu canolfan Cylch Caron, cyfleuster newydd cyfun ar gyfer gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Thai Canolbarth Cymru
- Ailfodelu ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu gwasanaethau atal a gwasanaethau ymyrraeth gynnar i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddatblygu darpariaeth ar y cyd ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn Awel Deg, Llandysul, ac yn Aberystwyth.
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddarparu gwelyau 'Cam i fyny, cam i lawr' er mwyn helpu pobl sy'n dod allan o ysbytai i setlo'n gyflym a chyffyrddus yn eu cartrefi
- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i geisio darparu gwelyau nyrsio dementia yng ngogledd y sir

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Fforwm Anabledd Ceredigion er mwyn ystyried anghenion sydd ag anableddau amrywiol.

FFOADURIAID

Fel yr awdurdod lleol Cymreig cyntaf i groesawu ffoaduriaid o Syria rydym yn bwriadu i Geredigion barhau i chwarae rhan lawn wrth dderbyn ffoaduriaid ac rydym wedi ymrwymo y bydd y sir yn derbyn deg ffoadur yn flynyddol dros bum mlynedd.

Ariennir y ddarpariaeth gan y Trysorlys a lleolir y ffoaduriaid mewn cartrefi preifat nid mewn cartrefi cymdeithasol.

Caring for those in need

SOCIAL SERVICES

In these difficult financial times, ensuring the continued care of those in needs has been vital, and has been at the centre of our work. We believe that we should help people maintain their independence, but that our social services should always be ready as a safety net for when it is needed.

We are proud of the fact that Ceredigion is the only county in Wales that still provides meals for the elderly and disabled made with fresh, local produce, rather than microwave meals.

We have enthusiastically taken up the work of transforming services for the elderly and for disabled people in our county, and look forward to continuing with that responsibility.

We will:

- Progress the ground breaking Cylch Caron integrated health & social care facility in partnership with Hywel Dda University Health Board and Mid Wales Housing
- Remodel our Social Services department to develop prevention and early intervention services in accordance with the needs of the Social Services and Wellbeing Act 2014
- Work in partnership with Hywel Dda Health Board to develop joint provision for Mental Health and Learning Disabilities in Awel Deg, Llandysul and in Aberystwyth
- Work with Hywel Dda Health Board to provide Step Up, Step Down beds in order to help people coming out of hospitals settle quickly and comfortably back into their homes
- Work with the Health Board to try and provide dementia nursing beds in the north of the county

We will also continue working with the Ceredigion Disability Forum in order to take account of the needs of people with different disabilities.

REFUGEES

Ceredigion was the first Welsh local authority to welcome refugees from Syria. We intend that we will continue to play a full part in accepting refugees and have committed to the county taking ten refugees annually over five years.

These placements are funded by the Treasury and are in privately owned homes not in social housing.

Arbed arian, gweithio'n effeithiol

CORFFORAETHOL

Byddwn yn parhau i drawsnewid adeiledd mewnol y Cyngor er mwyn canolbwyntio adnoddau prin ar ein gwasanaethau. Mae gan y Cyngor 50% yn llai o uwch swyddogion na phedair blynedd yn ôl.

Byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau o adeiladau'r Cyngor er mwyn arbed arian ac ail-fuddsoddi mewn adeiladau modern, effeithlon.

GWASTRAFF

O dan ein harweiniad, mae Ceredigion wedi llwyddo i gael y gyfradd ailgylchu uchaf yn y Deyrnas Gyfunol, ac rydym wedi cyhoeddi'n ddiweddar gyfradd ailgylchu o 70% ar gyfer 2016/17. Mae hon wedi bod yn orchest, ond mae ffyrdd i wella ymhellach eto.
Byddwn yn cynnal perfformiad ailgylchu rhagorol Ceredigion a'i gynyddu ymhellach drwy weithio gyda chynghorau cyfagos i sicrhau arbedion maint.

Byddwn yn darparu gwasanaeth ochr ffordd i gasglu gwydr ar draws y sir yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn ardal Aberteifi.

RHEOLI CARBON

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ynni adnewyddol a gwarchod ynni yn adeiladau'r Cyngor ar draws y sir. Mae hyn wedi ein galluogi i weithio'n gynaliadwy a chost effeithiol.

Mae'n gweithgareddau wedi'n galluogi i gyrraedd ein targed lleihau carbon o 15%, wedi arbed dros £2.2 miliwn mewn gwariant, ac arbed bron 3,000 tunnell o garbon erbyn hyn.

Byddwn yn:

- Parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn ynni adnewyddol
- Parhau i osod paneli solar ar doeon adeiladau'r Cyngor ar draws y sir
- Gosod mesuryddion 'smart' yn ein hysgolion i ddynodi'n fanwl gywir ble mae gwastraff ynni
- Cwblhau cynllun ar draws y sir i roi goleuadau LED ynni isel yn lle'r hen oleuadau.

Saving money, working effectively

CORPORATE

We will continue to transform the Council's internal structures in order to focus scarce resources on service delivery. Council has 50% fewer senior officers than four years ago.

We will continue to make the best use of the Council's buildings in order to save money and reinvest in modern, efficient buildings.

WASTE

Under our leadership, Ceredigion has achieved the highest recycling rate in the UK and we have recently announced a 70% recycling rate for 2016/17. This is a fantastic achievement, and we can still see ways to improve further.

We will maintain Ceredigion's excellent recycling performance and enhance this further by working with our neighbouring councils to achieve economies of scale.

We will instate a kerbside glass collection across the county, following a successful pilot in the Cardigan area.

CARBON MANAGEMENT

We have invested substantially in renewable energy and energy conservation in Council buildings across the county. This has enabled us to work sustainably and cost effectively.

This has enabled us to achieve our target carbon reduction of 15% a year ahead of schedule, saving over £2.2 million in revenue, and almost 3,000 tons of carbon so far.

We will:

- Continue to invest substantially in renewable energy
- Continue to install solar panels on the roofs of council buildings across the county
- Install smart meters in our schools to enable the pinpointing of energy wastage
- Complete a county-wide scheme of replacing street lights with low energy LED lanterns

Os am wybod rhagor am waith Plaid Cymru yng Ngheredigion, cysylltwch â:

If you would like to know more about Plaid Cymru's work in Ceredigion, please contact:

Plaid Cymru Ceredigion, 32 Heol y Wig/Pier Street, Aberystwyth, SY23 2LN
01970 617492
post@pc-ceredigion.co.uk